



## ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU

## LEGISLATION COMMITTEE REPORT

### Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2004

Diben y Rheoliadau hyn yw gwneud darpariaethau ar gyfer cynnal refferenda sy'n ymwneud â ph'un a ddylai cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol fabwysiadu trefniadau gweithrediaeth a fyddai'n cynnwys gweithrediaeth o faer a chabinet, gweithrediaeth o faer a rheolydd y cyngor neu weithrediaeth o arweinydd a chabinet. Mae'r Rheoliadau yn pennu'r datganiad a ffurf y geiriau yn y cwestiwn a ofynnir yn y refferendwm ac mae hefyd yn pennu rhai ffurflenni rhagnodedig i'w defnyddio mewn refferendwm dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Gwnaed y Rheoliadau dan y Weithdrefn Weithredol ar 23 Mawrth 2004 a daethant i rym ar 24 Mawrth 2004.

### Rheol Sefydlog 11.5

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 11.5.

Mae Rheoliadau 7(2), 8(1), 10(1), 12(1), 13(3), 14(1), (2) (3) a (4), 15(1)(d), (8) a (9) a 17(6) a (10) oll yn rhai y dywedir yn y testun Saesneg eu bod "subject to" rheoliadau eraill. Yn nhestun Cymraeg y Rheoliadau yr ymadrodd a ddefnyddir am "subject to" yw "amodol ar", sy'n awgrymu bod y rheoliadau y cyfeirir atynt yn rhai sy'n "conditional upon" rheoliadau eraill. Gallai hyn fod yn gamarweiniol a dylid ei gywiro cyn gynted ar y bo modd.

Yn Atodlen 3, mae angen cywiro'r materion yn Nhabl 3, fel y nodir isod, cyn gynted ag y bo modd.

Mae'r darn sy'n ymwneud â Rheol 29 yn cynnwys newidiadau i'r cwestiynau y gall y swyddog llywyddu eu rhoi ger bron person sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy. Er bod y term "A.B." am y person y mae ei enw ar y rhestr o ddirprwyon yn cyfateb yn y testunau Saesneg a Chymraeg, nid yw'r term a ddefnyddir am y person y mae'r dirprwy yn bwriadu pleidleisio ar ei ran yn cyfateb gan mai "C.D." a ddefnyddir yn y testun Saesneg a "P.D." yn y testun Cymraeg. Dylid newid naill ai'r testun Saesneg neu'r testun Cymraeg i sicrhau eu bod yn cyfateb.

Mae'r disgrifiad yn y testun Saesneg yng ngholofn 1 o Reol 30 yn darllen "(challenge of voters)". Gellid cymryd hynny i awgrymu her i bleidleisiwr neu her gan bleidleisiwr. Yng nghyd-destun y Rheolau eu hunain, cymerir mai'r cyntaf a awgrymir. Serch hynny, mae'r disgrifiad yn y testun Cymraeg – "(her gan y pleidleiswyr)" – yn awgrymu'r olaf a dylid newid y disgrifiad. Defnyddir yr un disgrifiad yn Atodlen 4 yn y darn sy'n ymwneud â Rheolau 26 i 37. Yn y fan hon, mae'r disgrifiad yn y testun Cymraeg "herio pleidleiswyr" – wedi'i lunio fel ag i awgrymu her i bleidleiswyr, ac i osgoi amwysedd yn y Rheoliadau dylid newid y disgrifiad o Reol 31 yn Nhabl 3 yn y testun Cymraeg cyn gynted ag y bo modd.

## Sylwadau

Yn y Nodyn Esboniadol, mae teitl Cymraeg y "Petitions and Directions Regulations" wedi'i gamdeipio a dylai gyfeirio at "Chyfarwyddiadau" ac nid at "Chyfarwyddyd".

Mae'r paragraff yn y Nodyn Esboniadol sy'n ymwneud â rheoliad 8 yn y testun Saesneg yn cyfeirio at gymhwysu rhai darpariaethau deddfwriaethol a nodwyd. Mae'r paragraff cyfatebol yn y testun Cymraeg yn awgrymu bod a wnelo rheoliad 8 â'r cyfryw ddarpariaethau.

Penderfynwyd defnyddio'r term 'mangre' am 'premises' ac 'eiddo' am 'property'. Mae peth anghysondeb yn y Rheoliadau gan fod y ddau derm Cymraeg wedi'u defnyddio i gyfieithu 'premises' (gweler y cyfeiriad yn y Nodyn Esboniadol at reoliad 20 a rheoliad 20 ei hun). Hefyd, ym mharagraff 1 o Atodlen 2, mae 'premises' wedi'i gyfieithu fel 'adeiladau'.

Yn y testun Cymraeg o reoliad 8, mae'r llythrennau ym mharagraff (1) yn dilyn yr wyddor Saesneg ((a) i (p)). Dylid cywiro hyn i'r wyddor Gymraeg ((a) i (ll)) cyn gynted ag y bo modd, yn ogystal â'r croesgyfeiriad yn rheoliad 15(8)(a).

Ym mhenawdau colofn 2 o Dablau 2 a 3, dylid cynnwys ar ôl "Newidiad" y geiriau "(os oes un)".

Yn Nhabl 2, sy'n newid Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, mewn perthynas â'r darn sy'n ymwneud ag adran 31(1) a (3), ni ellir canfod y newidiad ""Hepgorer "mentioned in subsections (1) to (3)"" yn y darn ei hun a dylid felly ei ddileu, ond mae'n anhebyg y bydd unrhyw beth yn dilyn o'r hepgor honedig o destun nad yw'n bodoli.

Mewn perthynas â'r darn sy'n ymwneud ag adran 202 o Ddeddf 1983, nid yw'n edrych yn debyg bod y cyfieithiad o "citizen of the Union" a "relevant citizen of the Union" yn gywir gan fod "dinesydd i'r Undeb" a "dinesydd perthnasol i'r Undeb" yn awgrymu "to the" yn hytrach nag "of the Union". Awgrymir bod yr ymadroddion hyn yn cael eu newid yn "dinesydd yr Undeb" a "dinesydd perthnasol yr Undeb".

Yn Atodlen 5 o'r testun Cymraeg, mae'r newidiad i adran 30 o Ddeddf 1983 yn defnyddio'r geiriau "the Local Government Act". Nid yw Deddf 1983 yn defnyddio priflythrennau ar gyfer "L" a "G" wrth gyfeirio at y Ddeddf hon, a dylid newid y darn hwn i gyfateb i'r darn cywir yn y fersiwn Saesneg sef, "the local government Act".

Argymhellir bod yr anghysondebau hyn a'r materion y cyfeirir atynt uchod yn cael eu datrys pan ddaw'r cyfle.

Nodwyd hefyd nifer o bwyntiau fformadu a gwallau sillafu, ynghyd â phwyntiau yn ymwneud â throednodiadau, y byddai wedi bod yn briodol i'w cywiro cyn cyhoeddi, ond nid drwy offer yn cywiro.

**Glyn Davies AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**27 Ebrill 2004**